Joint Council for Qualifications

# Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau

- Ailwiriadau clercyddol
- Adolygiadau o'r marcio
- Adolygiadau o'r cymedroli
- Mynediad at sgriptiau

Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau – cyfresi arholiadau Mehefin 2026 a Thachwedd 2026

**Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r cymwysterau canlynol:**

Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach AQA
Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol AQA
Cymwysterau Cyntaf BTEC, Cymwysterau Cenedlaethol BTEC, Dyfarniadau Technegol BTEC
Cymwysterau Cenedlaethol Uwch Caergrawnt
Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
Cymwysterau Technegol Caergrawnt
Cymwysterau Technegol Lefel 2 a Lefel 3 City & Guilds
FSMQ
TAG UG a Safon Uwch
TGAU
Cymwysterau Galwedigaethol (Dyfarniad Technegol) Lefel 1, 2 a 3 NCFE
Diplomâu/Diplomâu Estynedig Lefel 3 NCFE (asesiad allanol yn unig)
Tystysgrifau Lefel 3 OCR
Projectau (yn cynnwys Project Estynedig)
Lefelau T (Cymwysterau technegol)
Cymwysterau TQUK Dylunio, Peiriannu ac Adeiladu!
CBAC - cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2
CBAC - cymwysterau  Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol
CBAC Lefel 1 a Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
Cymwysterau Cymhwysol Lefel 3 CBAC

## Pwyntiau cyswllt cyrff dyfarnu

| Corff dyfarnu | Cofrestru, cyflwyno a gwybodaeth ar-lein<br><br>Dylid cyflwyno ceisiadau ar-lein | Rhif ffôn | Cyfeiriad post<br><br>(Dim ond os nad yw gwneud ceisiadau ar-lein yn bosibl y dylech ddefnyddio ffurflen gais) |
|---|---|---|---|
| AQA | Gwasanaethau Canolfan (Centre Services)<br><br>https://onlineservices.aqa.org.uk/ | 0800 197 7162 | Os nad yw canolfannau'n gallu cyflwyno cais gan ddefnyddio Gwasanaethau Canolfan, dylent gysylltu ag AQA trwy ffonio. |
| Cambridge OCR | Gwasanaeth Mynediad at Sgriptiau ac Interchange trwy My Cambridge<br><br>https://sso.cambridge.org/<br><br>Am arweiniad, ewch i www.ocr.org.uk/prs | 01223 553998 | Os nad yw canolfannau'n gallu cyflwyno cais ar-lein, dylent ffonio'r Ganolfan Cefnogi Cwsmeriaid yn Cambridge OCR. |
| CCEA | www.ccea.org.uk<br><br>I gael gwybodaeth am y gwasanaethau ar ôl y canlyniadau, anfonwch e-bost at: postresults@ccea.org.uk | Ffôn: 028 9026 1451 | CCEA<br>Clarendon Dock<br>29 Clarendon Road<br>Belffast<br>BT1 3BG |
| City & Guilds | www.cityandguilds.com<br><br>I gael gwybodaeth, anfonwch e-bost at Centreoperations@cityandguilds.com<br><br>01924 930 800 | 0300 303 53 52 | Os nad yw canolfannau yn gallu cyflwyno cais ar-lein dylent gysylltu â City & Guilds trwy ffonio. |
| NCFE | Canlyniadau ac ymholiadau asesu \| NCFE<br><br>customersupport@ncfe.org.uk | 0191 239 8000 | NCFE<br>Q6 Quorum Business Park<br>Benton Lane<br>Newcastle upon Tyne<br>NE12 8BT |
| Pearson | Edexcel Online<br>www.edexcelonline.com<br><br>I gofrestru ar gyfer Edexcel Online, ewch i: qualifications.pearson.com/en/contact.us.html | Canolfannau cartref:<br>0344 463 2535<br><br>Canolfannau rhyngwladol:<br>+44 (0) 1204 770696 | Os nad yw canolfannau'n gallu cyflwyno cais gan ddefnyddio Edexcel Online, dylent gysylltu â'r Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid trwy ffonio. |
| TQUK | www.tquk.org<br><br>I gael gwybodaeth, anfonwch e-bost at exams@tquk.org | 03333 583 344 | TQUK<br>Crossgate House<br>Cross Street<br>Sale<br>M33 7FT |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CBAC | Porth CBAC<br>portal.wjec.co.uk<br><br>I gofrestru, anfonwch gais e-bost at canolfannau@cbac.co.uk gan ddyfynnu rhif y ganolfan, enw'r ganolfan ac enw cyswllt | 01443 845619 | Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau<br>CBAC<br>Uned A16/17<br>Ffordd Gwaelod Y Garth<br>Stad Ddiwydiannol Trefforest<br>Pontypridd<br>Rhondda Cynon Taf<br>CF37 5XF |

## Cynnwys

**Tudalen**


**Adran Un: Cyffredinol**

**1. Cyflwyniad** 1

**2. Dyddiadau allweddol a therfynau amser cyfresi Mehefin 2026 a Thachwedd 2026** 3

**3. Ffioedd** 4

**Adran Dau: Adolygiadau o'r Canlyniadau ac apeliadau**

**4. Adolygiadau o'r Canlyniadau**

4.1 Cyfrifoldebau'r ganolfan 5
4.2 Cydsyniad yr ymgeisydd 5
4.3 Gwasanaethau Adolygu Canlyniadau 6
4.4 Cyflwyno ceisiadau 11
4.5 Cydnabyddiaeth 11
4.6 Canlyniad adolygiadau 12
4.7 Pryder canolfan am farcio carfan 13
4.8 Marciau Graddfa Marciau Unffurf (GMU) – cymwysterau TAG UG, Safon Uwch a TGAU unedol 14
4.9 Camymddwyn gan ymgeiswyr 14

**5. Apeliadau** 15

**Adran Tri: Mynediad at Sgriptiau**

**6. Dychwelyd Sgriptiau (DS)**

6.1 Trefniadau dychwelyd sgriptiau arholiad wedi'u marcio 16
6.2 Amodau'r gwasanaeth Mynediad at Sgriptiau 16
6.3 Copïau o sgriptiau i gefnogi adolygiadau o'r marcio 17
6.4 Copïau o sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu 17
6.5 Cynlluniau marcio 18
6.6 Cael gwared ar sgriptiau 18
6.7 Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 18

**Atodiad A** – Ailwiriadau clercyddol, adolygiadau o'r marcio ac apeliadau – Ffurflen cydsyniad yr ymgeisydd 19

**Atodiad B** – Mynediad at Sgriptiau – Ffurflen cydsyniad yr ymgeisydd i gael mynediad at sgriptiau arholiad a'u defnyddio 20

# ADRAN UN: Cyffredinol

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae tair adran i'r ddogfen hon:

- **Adran Un** rhoi trosolwg o broses y gwasanaethau ar ôl y canlyniadau.
- **Adran Dau** cyfeirio at Adolygiadau o'r Canlyniadau (ailwiriad clercyddol, adolygiad o'r marcio ac adolygiad o'r cymedroli ac apeliadau).
- **Adran Tri** cyfeirio at Fynediad at Sgriptiau.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefniadau cyffredin ar gyfer gwasanaethau ar ôl y canlyniadau. Fodd bynnag, gallai cyrff dyfarnu gynnig gwasanaethau ychwanegol ar ôl canlyniadau. Gan y bydd y cyrff dyfarnu yn cyhoeddi eu canllawiau gweinyddol eu hunain o ran gwasanaethau ar ôl y canlyniadau, darllenwch y ddogfen hon ynghyd ag unrhyw wybodaeth a gyhoeddir gan y cyrff dyfarnu. Dylai canolfannau gyfeirio at wefannau cyrff dyfarnu.

1.3 **Nid yw'r** ddogfen hon yn ymwneud â chanlyniadau coll ac anghyflawn (MIR) sydd wedi'u hadrodd fel:

- 'Dim canlyniad' (X);
- 'Absenoldeb rhannol' (e.e. D#);
- 'Yn aros am ganlyniad' (Q).

I ymholi am ganlyniad o'r fath, dylid cyfeirio at y ddogfennaeth berthnasol a ddarperir gan y corff dyfarnu unigol.

Bydd y corff dyfarnu'n ymchwilio i'r ymholiad ac yn cyflwyno adroddiad amdano yn ddi-dâl. Gellir datrys y rhan fwyaf o'r ymholiadau ar y diwrnod canlyniadau penodol trwy wiriadau prosesu.

1.4 Yn achos ymgeiswyr sy'n dilyn manylebau unedol TGAU, TAG UG a TAG Safon Uwch yng Nghymru a Gogledd Iwerddon sydd wedi cyflawni digon o ganlyniadau uned i gael dyfarniad cymhwyster ond heb hawlio ardystiad, gallant wneud hynny'n hwyrach trwy eu canolfan. **Rhaid** i'r ganolfan gyflwyno'r cais i'r corff dyfarnu perthnasol **cyn** y terfyn amser a gyhoeddir ar gyfer y gyfres dan sylw. Bydd pob corff dyfarnu'n cyhoeddi ei ganllawiau gweinyddol ei hun, a fydd yn rhoi manylion y dull o gyflwyno ceisiadau ac unrhyw dâl am y gwasanaeth hwn.

1.5 Os oes gan ganolfan bryderon am farcio cydran, dylid cyflwyno adolygiadau cyn gynted â phosibl ar gyfer pob ymgeisydd sy'n dymuno gwneud cais am adolygiad. Bydd hyn yn galluogi'r corff dyfarnu i ystyried ansawdd y marcio yn gyfannol a rhoi unrhyw gamau ymchwilio ar waith yn amserol.

**Rhaid** i ymgeiswyr ddarparu eu cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer adolygiadau o'r marcio.

1.6 Lle mae unrhyw gyfeiriad yn cael ei wneud at 'sgript' yn y ddogfen hon, mae hyn yn golygu'r gwaith a gyflwynodd yr ymgeisydd yn rhan o gydran wedi'i hasesu'n allanol, h.y. copi caled neu sgript arholiad electronig.

**Pwysig:** Mae cyrff dyfarnu yn cynghori ymgeiswyr ac/neu eu canolfannau yn gryf i hysbysu eu dewisiadau prifysgol neu goleg eu bod wedi gwneud cais am adolygiad o'r canlyniadau. Trwy eu hysbysu, efallai y gallant gadw lle i'r ymgeisydd tan y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

**Ni fydd** corff dyfarnu yn hysbysu UCAS nac unrhyw un arall fod cais wedi'i wneud am adolygiad o'r marcio.  Fodd bynnag, bydd yn hysbysu UCAS o unrhyw newid i raddau o ganlyniad i adolygiad.  Mae manylion llawn am y canllawiau a ddarperir gan UCAS i'w cael yma:
https://www.ucas.com/undergraduate/results-confirmation-and-clearing/results/exam-reviews-and-appeals

## 2. Dyddiadau allweddol a therfynau amser cyfresi Mehefin 2026 a Thachwedd 2026

2.1 Er mwyn i'r cyrff dyfarnu allu darparu gwasanaeth effeithlon, rhaid i ganolfannau fodloni'r terfynau amser canlynol. **Rhaid** cyflwyno ceisiadau i'r cyrff dyfarnu erbyn y terfyn amser perthnasol.

**Rhaid** i ganolfannau gyflwyno ceisiadau ar-lein drwy safleoedd allrwyd y cyrff dyfarnu.

### 2.2 Dyddiadau allweddol a therfynau amser cyfres Mehefin 2026

| **Dyddiad allweddol** | **Adolygiadau o'r Canlyniadau** | **Dychwelyd Sgriptiau (DS)** |
|---|---|---|
| **13 Awst** | • Cyhoeddi canlyniadau TAG UG a Safon Uwch<br>• Cyhoeddi canlyniadau'r Project Estynedig<br>• Cyhoeddi canlyniadau Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol<br>• Gellir bellach gwneud cais am ail-wiriadau clercyddol, adolygiadau o'r marcio, ac adolygiadau o gymedroli | **Sgriptiau TAG UG, Safon Uwch, Lefel T a Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol**<br>• Gall canolfannau ofyn am gopïau o sgriptiau TAG UG, Safon Uwch, Lefel T a Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol i gefnogi adolygiadau o'r marcio a/neu addysgu a dysgu |
| **20 Awst** | • Cyhoeddi canlyniadau TGAU<br>• Cyhoeddi canlyniadau Project Sylfaen ac Uwch<br>• Cyhoeddi canlyniadau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol a Thechnegol<br>• Gellir bellach gwneud cais am ail-wiriadau clercyddol, adolygiadau o'r marcio, ac adolygiadau o gymedroli | **Sgriptiau TGAU a Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol a Thechnegol**<br>• Gall canolfannau ofyn am gopïau o sgriptiau TGAU a Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol a Thechnegol i gefnogi adolygiadau o'r marcio a/neu addysgu a dysgu |
| **20 Awst** | • **TERFYN AMSER** i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau am adolygiadau o'r marcio Gwasanaeth Blaenoriaethol 2 (**Cymwysterau TAG Safon Uwch, Lefel T a Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol yn unig)** | |

| | | |
|---|---|---|
| **20 Medi** | • **TERFYN AMSER** i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau am ddyfarniadau pwnc hwyr (**Cymwysterau unedol TGAU, TAG UG a Safon Uwch yng Nghymru a Gogledd Iwerddon**) | |
| **24 Medi** | • **TERFYN AMSER** ar gyfer Adolygiadau o'r Canlyniadau: Dyddiad olaf i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau | • **TERFYN AMSER** ar gyfer copïau o sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu<br>**Gweler gwefannau'r cyrff dyfarnu unigol am wybodaeth bellach**. |

I weld terfynau amser y CCEA ar gyfer sgriptiau TAG UG, Safon Uwch a TGAU i gefnogi adolygiadau o'r marcio, ewch i: Post-Results Support | CCEA

I gael gwybod y dyddiadau allweddol mewn perthynas â lefelau T NCFE a therfynau amser gwasanaethau adolygu canlyniadau, ewch i:
https://www.ncfe.org.uk/qualifications/centre-assessment-support/results-queries/

I gael gwybod y dyddiadau allweddol mewn perthynas â chymwysterau Dylunio, Peiriannu, Adeiladu! TQUK a'r gwasanaethau ar ôl y canlyniadau sydd ar gael, ewch i:
https://resources.tquk.org/hubfs/Marketing%20website/DEC/DEC%20Key%20Dates%2024%2025.pdf

I gael gwybod y dyddiadau allweddol mewn perthynas â Lefelau T CBAC a therfynau amser gwasanaethau adolygu canlyniadau, ewch i: Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau ac Apeliadau

### 2.3 Dyddiadau allweddol a therfynau amser cyfres arholiadau TGAU Tachwedd 2026

Terfyn amser y Gwasanaethau Adolygu Canlyniadau yw **18 Chwefror 2027**.

I weld terfynau amser y CCEA, ewch i: Post-Results Support | CCEA

2.4 **Ni fydd ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau perthnasol yn cael eu prosesu.** Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn **adran 4.5 – Cydnabyddiaeth**.

2.5 Lle cyhoeddwyd canlyniadau ar ôl y dyddiad cyhoeddi arferol, bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn cael ei ymestyn am gyfnod o'r un hyd â'r oedi.

2.6 Gellir gohirio derbyn sgriptiau os yw canolfan wedi gofyn am adolygiad o'r marcio yn yr un uned/gydran.

## 3. Ffioedd

3.1 Mae'r ffioedd am wasanaethau ar ôl y canlyniadau (Mynediad at Sgriptiau, ail-wiriadau clercyddol, adolygiadau o farcio, ac adolygiadau o gymedroli) yn cael eu pennu a'u cyhoeddi'n annibynnol gan bob corff dyfarnu unigol.

# ADRAN DAU:
# Adolygiadau o'r Canlyniadau ac apeliadau

## 4. Adolygiadau o'r Canlyniadau

### 4.1 Cyfrifoldebau'r ganolfan

4.1.1 **Rhaid** i staff perthnasol y ganolfan fod yn gwbl ymwybodol o'r broses ar ôl y canlyniadau, gan gynnwys y terfynau amser a gyhoeddwyd ar gyfer ailwiriadau clercyddol, adolygiadau o'r marcio ac adolygiadau o'r cymedroli.

4.1.2 **Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn gwybod y trefniadau ar gyfer ailwiriadau clerigol, adolygiadau o'r marcio ac adolygiadau o'r cymedroli cyn cyhoeddi'r canlyniadau. Rhaid darparu gwybodaeth ysgrifenedig i ymgeiswyr am y trefniadau.

4.1.3 **Rhaid i uwch aelodau o staff y ganolfan fod ar gael i ymgeiswyr yn syth ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau fel y gellir trafod y canlyniadau a gwneud penderfyniadau o ran cyflwyno ceisiadau am adolygu'r marcio. Rhaid** hysbysu'r ymgeiswyr o'r cyfnodau y bydd staff y ganolfan ar gael fel eu bod yn gallu cynllunio'n unol â hynny.

4.1.4 Ar gyfer ymgeiswyr mewnol bydd cyrff dyfarnu **ond** yn derbyn ceisiadau am adolygiadau o'r marcio gan ganolfannau ac nid gan ymgeiswyr neu rieni ymgeiswyr. **Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod proses ar waith ganddynt er mwyn i ymgeiswyr mewnol apelio yn erbyn penderfyniad y ganolfan i beidio mynd ar drywydd adolygiad o'r marcio.

4.1.5 Anogir ymgeiswyr preifat i gyflwyno cais am adolygiadau o'r marcio drwy eu canolfan. Fodd bynnag, gallant gyflwyno cais yn uniongyrchol i gorff dyfarnu. Nodir ymgeiswyr preifat gan y ganolfan wrth gyflwyno cofrestriadau. Bydd cyrff dyfarnu yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddilysu ceisiadau sy'n dod yn uniongyrchol gan ymgeiswyr. Bydd y corff dyfarnu yn rhoi gwybod i ymgeiswyr preifat am y broses ar gyfer adolygiadau o'r marcio.

### 4.2 Cydsyniad yr ymgeisydd

4.2.1 **Rhaid** i ganolfannau gael cydsyniad ysgrifenedig yr ymgeisydd am ailwiriadau clercyddol ac adolygiadau o'r marcio, gan y gellir gostwng marciau a graddau pwnc yr ymgeiswyr gyda'r gwasanaethau hyn. **Os na lwyddir i wneud hyn, bydd yn cael ei ystyried yn gamymddwyn gan ganolfan.**

4.2.2 **Rhaid** cael cydsyniad ysgrifenedig yr ymgeisydd am ailwiriadau clercyddol ac adolygiadau o'r marcio ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau.

- **Rhaid** hysbysu'r ymgeiswyr y gallai eu marciau a'u graddau pwnc ostwng yn ogystal â chodi ac mae'n **rhaid** darparu cydsyniad ysgrifenedig **cyn** cyflwyno cais. (Mae **Atodiad A** yn rhoi awgrym o ffurflen y gall canolfannau ei defnyddio. Mae cydsyniad ysgrifenedig gan yr ymgeisydd dros e-bost yn dderbyniol hefyd.)

- Mae cais ar-lein yn rhoi cadarnhad i'r corff dyfarnu bod cydsyniad ysgrifenedig yr ymgeisydd wedi'i gael. (Mae cyflwyno ffurflen gais wedi'i llofnodi'n gwneud yr un peth.)

- **Rhaid** i'r ganolfan gadw ffurflenni neu negeseuon e-bost cydsyniad gan ymgeiswyr am chwe mis o leiaf ar ôl canlyniad ailwiriad clercyddol neu adolygiad o'r marcio neu unrhyw apêl ddilynol. Mae'r cyrff dyfarnu'n cadw'r hawl i wneud cais am unrhyw ddogfennau.

4.2.3 **Nid** oes angen cydsyniad yr ymgeisydd ar gyfer adolygiad o'r cymedroli. Gellir gostwng marciau'r ymgeisydd ond **ni fydd** ei raddau pwnc a gyhoeddwyd yn gostwng yn y gyfres dan sylw. Fodd bynnag, dylai canolfannau fod yn ymwybodol y gellid trosglwyddo marc wedi'i ostwng i ardystiad yn y dyfodol. Er enghraifft, os yw marc asesiad di-arholiad sy'n cyfrannu at ddyfarniad UG (**cymhwyster unedol TAG UG**) yn cael ei ostwng oherwydd adolygiad o'r cymedroli, bydd y radd UG yn cael ei gwarchod, ond bydd y marc is yn cyfrannu at unrhyw ddyfarniad Safon Uwch dilynol (**cymhwyster unedol TAG Safon Uwch**).

Felly, rhaid i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn gwybod y gellir gostwng marc ar gyfer cydran Asesiad Di-arholiad, ac y gallai hynny effeithio ar ardystiad yn y dyfodol.

## 4.3 Gwasanaethau Adolygu Canlyniadau

### 4.3.1 **Gwasanaeth 1 (Ailwiriad clercyddol)**

- Cyflwynwch y cais ar-lein.
- Mae angen cydsyniad yr ymgeisydd ac mae'n **rhaid** i'r ganolfan ei gadw ar ffeil **(gweler adran 4.2)**.
- **Rhaid** i'r corff dyfarnu dderbyn y cais erbyn **24 Medi 2026**.
- Y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith yw o fewn 10 diwrnod calendr i'r corff dyfarnu dderbyn y cais.

Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnwys y gwiriadau canlynol:

- bod holl rannau'r sgript wedi cael eu marcio;
- cyfansymu'r marciau;
- cofnodi'r marciau.

Adroddir canlyniad yr ail-wiriad clerigol ynghyd â datganiad o'r cyfanswm marciau am bob uned neu gydran a gynhwysir yn yr ymholiad.

**Yn achos profion dewis lluosog, dim ond ailwiriadau clercyddol Gwasanaeth 1 y gellir gofyn amdanynt.**

4.3.2 **Gwasanaeth 2 (Adolygiad o'r marcio)**

Mae'r gwasanaeth ar ôl y canlyniadau hwn yn cynnig adolygiad o'r marcio gwreiddiol i sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i gymhwyso'n gywir.

Gall gwall marcio ddigwydd oherwydd:

- gwall gweinyddol;
- methiant i gymhwyso'r cynllun marcio os mai dim ond ateb 'cywir' neu 'anghywir' sydd i dasg;
- arfer barn academaidd yn afresymol†.

Bydd y corff dyfarnu yn hyfforddi ei adolygwyr i gynnal adolygiadau o'r marcio yn gywir ac yn gyson. **Ni fydd** adolygwyr yn ailfarcio'r sgript. Byddant ond yn gweithredu i gywiro unrhyw wallau a nodwyd yn y marcio gwreiddiol.

**Mae'r gwasanaeth hwn ar gael ar gyfer y cydrannau a asesir yn allanol mewn manylebau unedol a llinol TAG UG, Safon Uwch a TGAU. Mae hefyd ar gael ar gyfer cymwysterau Lefel 1, 2 a 3 Galwedigaethol a Thechnegol, gan gynnwys Lefelau T.**

- Cyflwynwch y cais ar-lein.
- Mae angen cydsyniad yr ymgeisydd ac mae'n **rhaid** i'r ganolfan ei gadw ar ffeil **(gweler adran 4.2)**.
- **Rhaid** cyflwyno'r cais i'r corff dyfarnu erbyn **24 Medi 2026**.
- Y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith yw o fewn 20 diwrnod calendr i'r corff dyfarnu dderbyn y cais.

Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnwys:

- yr ailwiriadau clercyddol a nodir yng Ngwasanaeth 1;
- adolygiad o'r marcio fel y disgrifir uchod.

**Os oes gan ganolfan bryderon am farcio carfan gyfan yn y ganolfan, cyfeiriwch at adran 4.7.**

Cynghorir canolfannau yn gryf y dylid cyflwyno ceisiadau am adolygiadau o'r marcio cyn gynted â phosibl ar gyfer unrhyw ymgeisydd, yn ôl pwnc, sy'n destun pryder.

Dylai hyn gynnwys pob cydran/uned, gan edrych ar y pwnc, lle mae'r ganolfan yn meddwl bod gwall marcio wedi digwydd. Yna, bydd y corff dyfarnu yn gallu ystyried ansawdd y marcio yn gyfannol a dechrau unrhyw gamau ymchwilio mewn modd amserol.

**Ni all** newidiadau i ganlyniadau ymgeiswyr sy'n deillio o adolygiadau o'r marcio arwain at gais dilynol hwyr am adolygiad o'r cymedroli.

†Barn academaidd yw beth sydd ynghlwm wrth asesu. Mae'n rhesymol y gall arholwyr gwahanol ddod i farn wahanol. Mae afresymoldeb mewn barn academaidd yn digwydd pan fo'r marc a roddwyd yn un na fyddai unrhyw arholwr rhesymol wedi gallu ei ddyfarnu'n iawn.

4.3.3 **Gwasanaeth Blaenoriaethol 2 (Adolygiad o'r marcio)**

**Mae'r gwasanaeth hwn ar gael ar gyfer y cydrannau a asesir yn allanol mewn manylebau unedol a llinol TAG Safon Uwch. Mae hefyd ar gael ar gyfer Cymwysterau Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol.** Yn achos NCFE dim ond i'r Lefelau T y mae'r gwasanaeth hwn yn berthnasol.

Mae'r gwasanaeth blaenoriaethol hwn yn cynnig adolygiad o'r marcio gwreiddiol i sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i gymhwyso'n gywir.

Gall gwall marcio ddigwydd oherwydd:

- gwall gweinyddol;
- methiant i gymhwyso'r cynllun marcio os mai dim ond ateb 'cywir' neu 'anghywir' sydd i dasg;
- arfer barn academaidd yn afresymol†.

Bydd y corff dyfarnu yn hyfforddi ei adolygwyr i gynnal adolygiadau o'r marcio yn gywir ac yn gyson. **Ni fydd** adolygwyr yn ailfarcio'r sgript. Byddant ond yn gweithredu i gywiro unrhyw wallau a nodwyd yn y marcio gwreiddiol.

**Pwysig:** Mae cyrff dyfarnu yn cynghori ymgeiswyr ac/neu eu canolfannau yn gryf i hysbysu eu dewisiadau prifysgol neu goleg eu bod wedi gwneud cais am adolygiad o'r canlyniadau. Trwy eu hysbysu, efallai y gallant gadw lle i'r ymgeisydd tan y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

**Ni fydd** corff dyfarnu yn hysbysu UCAS nac unrhyw un arall fod cais wedi'i wneud am adolygiad o'r marcio. Fodd bynnag, bydd yn hysbysu UCAS o unrhyw newid i raddau o ganlyniad i adolygiad. Mae manylion llawn am y canllawiau a ddarperir gan UCAS i'w cael yma:
https://www.ucas.com/undergraduate/results-confirmation-and-clearing/results/exam-reviews-and-appeals

- Cyflwynwch y cais ar-lein.
- Mae angen cydsyniad yr ymgeisydd ac mae'n **rhaid** i'r ganolfan ei gadw ar ffeil **(gweler adran 4.2)**.
- **Rhaid** cyflwyno'r cais i'r corff dyfarnu yn ddim hwyrach na **20 Awst 2026** (saith diwrnod ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau TAG Safon Uwch a Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol).
- Y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith yw o fewn 15 diwrnod calendr i'r corff dyfarnu dderbyn y cais.

Cynghorir canolfannau yn gryf y dylid cyflwyno ceisiadau am adolygiadau o'r marcio cyn gynted â phosibl ar gyfer unrhyw ymgeisydd, yn ôl pwnc, sy'n destun pryder. Mae hyn yn arbennig o wir ynghylch adolygiadau blaenoriaethol o'r marcio os yw lle'r ymgeisydd yn y brifysgol neu'r coleg yn y fantol. Dylai hyn gynnwys pob cydran/uned, gan edrych ar y pwnc yn ei gyfanrwydd, lle mae'r ganolfan yn meddwl bod gwall marcio wedi digwydd. Yna, bydd y corff dyfarnu yn gallu ystyried ansawdd y marcio yn gyfannol a dechrau unrhyw gamau ymchwilio mewn modd amserol.

Os yw ymgeisydd TAG Safon Uwch, Lefel T neu Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol yn

ystyried cael adolygiad o'r marcio gan ddefnyddio Gwasanaeth Blaenoriaethol 2, yna cyfeiriwch at wefan y corff dyfarnu perthnasol i ddeall goblygiadau gofyn am gopi o'r sgript.

†Barn academaidd yw beth sydd ynghlwm wrth asesu. Mae'n rhesymol y gall arholwyr gwahanol ddod i farn wahanol. Mae afresymoldeb mewn barn academaidd yn digwydd pan fo'r marc a roddwyd yn un na fyddai unrhyw arholwr rhesymol wedi gallu ei ddyfarnu'n iawn.

### 4.3.4 Gwasanaeth 3 (Adolygiad o'r cymedroli)

Mae'r broses hon yn adolygu'r cymedroli gwreiddiol er mwyn sicrhau bod y meini prawf asesu wedi'u cymhwyso'n deg, yn ddibynadwy ac yn gyson. **Nid** ailgymedroli gwaith yr ymgeiswyr yw hyn. Bydd y corff dyfarnu wedi hyfforddi ei adolygwyr i gynnal adolygiadau o'r cymedroli yn gywir ac yn gyson.

Noder **na fydd** y gwasanaeth hwn ar gael os yw marciau'r gwaith cwrs a asesir yn fewnol (gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad) yn eich canolfan wedi'u derbyn heb newid gan y corff dyfarnu.

- Cyflwynwch y cais ar-lein.
- **Nid oes** angen cydsyniad yr ymgeisydd **(gweler adran 4.2)**.
- **Rhaid** cyflwyno'r cais i'r corff dyfarnu erbyn **24 Medi 2026.**
- Y terfyn amser ar gyfer cwblhau yw hyd at 35 diwrnod calendr ar ôl i'r adolygwr dderbyn y sampl gwaith gwreiddiol gan y ganolfan. Mae hyn oherwydd cymhlethdodau'r broses, fel cydlynu rhwng y ganolfan a'r adolygwr.
- Dylai canolfannau hysbysu ymgeiswyr Lefel 3 na fydd adolygiadau o'r cymedroli o reidrwydd yn cael eu cwblhau i fodloni terfynau amser prifysgolion unigol.
- Cynhelir y gwaith o adolygu'r cymedroli ar y sampl gwreiddiol o waith ymgeiswyr.
- **Ni fydd** adolygiad o'r cymedroli yn cael ei gynnal ar waith ymgeisydd unigol na gwaith ymgeiswyr nad oeddent yn y sampl gwreiddiol.

**Nid oes modd** adolygu'r cymedroli os yw marc ar gyfer cydran a asesir yn fewnol wedi'i drosglwyddo i gyfres ddilynol.

**Rhaid** i ganolfannau sydd â'r sampl gwaith gwreiddiol yn eu meddiant wneud yn siŵr ei fod yn barod i'w anfon. Bydd manylion yr adolygwr i anfon y gwaith ato'n cael eu darparu. **Ni ddylid** anfon gwaith a aseswyd gan y ganolfan wrth gyflwyno'r adolygiad o'r cymedroli.

Mae'n **rhaid** i waith a gyflwynir i adolygu'r cymedroli:

- gael ei anfon at yr adolygwr o fewn **tri diwrnod gwaith ar ôl derbyn cyfarwyddiadau gan y corff dyfarnu**. Gall methiant i wneud hyn ohirio canlyniad yr adolygiad, neu arwain at ganslo'r adolygiad;
- bod yn waith gwreiddiol a gyflwynwyd i'w gymedroli;
- bod wedi'i gadw dan amodau diogel a heb ei ddychwelyd at yr ymgeiswyr.

**Ni ellir** ymgymryd â'r gwasanaeth hwn ar ddeunydd darfodedig onid oes modd darparu tystiolaeth addas (megis recordiad cyfryngau o berfformiadau theatrig).

Dylai canolfannau nodi y gall fod angen iddynt gadw copi o'r gwaith os yw ymgeisydd yn bwriadu ailgyflwyno gwaith ar gyfer y cyfle asesu nesaf.

**Rhaid** i ganolfannau sy'n gweithredu fel rhan o gonsortiwm gyflwyno ceisiadau ar ran pob canolfan yn y consortiwm hwnnw. **Ni all** canolfannau unigol yn y consortiwm ofyn am adolygiad o'r cymedroli ar eu rhan eu hunain yn unig.

**Ni all** newidiadau i ganlyniadau ymgeiswyr sy'n digwydd ar ôl adolygiad o'r cymedroli arwain at gais hwyr dilynol i gael adolygu marcio cydran arholiad ysgrifenedig.

## 4.4 Cyflwyno ceisiadau

**Rhaid** i ganolfannau gyflwyno ceisiadau ar-lein drwy safleoedd allrwyd y cyrff dyfarnu.

4.4.1 Y gwasanaethau ar ôl y canlyniadau cyhoeddedig yw'r unig ffordd o fynd i'r afael â phryderon am wallau yn y marcio gwreiddiol.

4.4.2 Lle nad yw canolfan yn gallu defnyddio safle allrwyd corff dyfarnu**, rhaid** i'r ganolfan ffonio'r corff dyfarnu unigol ar unwaith.

4.4.3 **Ni** ellir derbyn llythyrau o bryder fel ceisiadau. Os oes gan ganolfannau bryderon, **rhaid** iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau ar ôl y canlyniadau cyhoeddedig. **Ni ddylai** canolfannau anfon llythyrau o bryder gyda'u ceisiadau.

4.4.4 **Rhaid** i bob cais ar ran ymgeiswyr mewnol gael ei gyflwyno (ac felly eu cefnogi gan y ganolfan) gan aelod awdurdodedig o staff y ganolfan. Cyn cyflwyno cais, dylai canolfannau wirio bod yr holl fanylion yn gywir yn cynnwys enw'r ymgeisydd, rhif yr ymgeisydd a chod y gydran.

4.4.5 Gellir cyflwyno ceisiadau ar ran ymgeiswyr preifat naill ai drwy'r ganolfan neu'n uniongyrchol i gyrff dyfarnu, er caiff ymgeiswyr preifat eu hannog i gyflwyno ceisiadau am adolygiadau o farcio drwy eu canolfan yn unol â pharagraff 4.1.5.

4.4.6 **Ni fydd** cyrff dyfarnu'n derbyn ceisiadau a gyflwynir gan unrhyw unigolion eraill, e.e. gan rieni/gofalwyr. Bydd cyrff dyfarnu'n trafod ymgeiswyr mewnol â chanolfannau yn unig.

4.4.7 **Rhaid** i ganolfannau fod â gweithdrefn apeliadau ffurfiol y gellir ei defnyddio os na all canolfannau ac ymgeiswyr, neu eu rhieni/gofalwyr, gytuno a ddylid cyflwyno cais am adolygiad o'r canlyniadau. **Rhaid** i'r weithdrefn apeliadau ffurfiol gael ei rhannu'n eang. **Rhaid** i ganolfannau dynnu sylw ymgeiswyr a'u rhieni/gofalwyr at y weithdrefn apelio. Pan fydd canolfannau'n penderfynu a ydynt am gefnogi adolygiad o'r canlyniadau ai peidio, dylent ystyried yr holl ffactorau perthnasol a chaniatáu cyfle rhesymol i ymgeiswyr neu eu rhieni/gofalwyr fynegi eu barn. Anogir canolfannau i ymestyn y weithdrefn apeliadau ffurfiol i unrhyw ymgeiswyr preifat.

4.4.8 **Rhaid** i ymgeiswyr ddarparu eu cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer ailwiriadau clercyddol ac adolygiadau o'r marcio ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau (**gweler adran 4.2**).

4.4.9 **Rhaid** cyflwyno ceisiadau am bynciau unedol o fewn y cyfnod ymholi yn syth ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau am yr uned(au). **Ni ellir cyflwyno ceisiadau'n adolygol ar gyfer cyfres flaenorol.**

4.4.10 Gweler yr adran ar bwyntiau cyswllt corff dyfarnu (ar du fewn y clawr blaen) am fanylion cyflwyno ceisiadau i'r cyrff dyfarnu.

4.4.11 **Ni all** cyrff dyfarnu ganslo ymholiad ar ôl ei gyflwyno.

4.4.12 Ar ôl cyhoeddi canlyniad adolygiad, ni ellir cyflwyno mwy o geisiadau am adolygiadau o farcio neu gymedroli.

### 4.5 Cydnabyddiaeth

4.5.1 Cydnabyddir pob cais o fewn 7 diwrnod gwaith.

4.5.2 Os na dderbynnir cydnabyddiaeth o fewn y cyfnod hwn, yna dylai canolfannau gymryd nad yw'r cais wedi'i dderbyn a **rhaid** iddynt gysylltu â'r corff dyfarnu dan sylw **ar unwaith**.
Dylai canolfannau hefyd wirio cynnydd y cais yn rheolaidd.

4.5.3 Os na chysylltir tan ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwasanaethau ar ôl y canlyniadau, nid oes rhaid i'r corff dyfarnu fynd ymlaen â'r cais.

### 4.6 Canlyniad adolygiadau

4.6.1 Bydd canlyniad pob adolygiad yn cael ei gadarnhau gan y corff dyfarnu priodol.

4.6.2 Bydd y corff dyfarnu yn darparu rheswm dros benderfyniad a wneir mewn adolygiad o'r marcio. Os bydd y marc wedi newid, y rheswm fydd naill ai bod gwall gweinyddol neu wall marcio wedi digwydd. Byddai gwall marcio'n digwydd lle na fydd arholwr wedi cymhwyso'r cynllun marcio neu unrhyw weithdrefn berthnasol arall yn gywir, h.y.

- os na roddwyd y marc 'cywir' mewn tasg lle mae marc 'cywir' neu 'anghywir' i'w gael;
- os arferwyd barn academaidd yn afresymol†.

4.6.3 Mae tri chanlyniad posibl yn deillio o adolygiad o gymedroli:

- dim newid i'r penderfyniad cymedroli gwreiddiol;
- cywiriad i'r penderfyniad cymedroli gwreiddiol;
- adfer marciau'r ganolfan.

Bydd y cyrff dyfarnu yn rhoi rheswm ar gyfer y ddau ganlyniad cyntaf.

4.6.4 Pan fo gradd yn newid a thystysgrif wedi'i rhyddhau'n flaenorol, rhaid dirymu'r dystysgrif ac mae'n rhaid i'r ganolfan ddychwelyd y dystysgrif i'r corff dyfarnu. Bydd tystysgrif newydd yn cael ei gyhoeddi gan ddangos y radd newydd.

4.6.5 Bydd UCAS yn cael ei hysbysu o unrhyw newidiadau i raddau cymwysterau TAG, Lefel T a Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol. (**Rhaid** i ganolfannau ymgyfarwyddo â threfniadau UCAS: https://www.ucas.com/advisers/?tile=tile-471)

4.6.6 Lle bu gostyngiad mewn marciau neu israddio yn dilyn adolygiad o'r marcio, **ni ellir** diddymu'r cais ac **ni fydd** y marc na'r radd wreiddiol yn cael ei adfer.

4.6.7 Ar ôl cyhoeddi canlyniad yr adolygiad, ni all y corff dyfarnu gyflawni ymchwil pellach o'r marcio neu gymedroli. Fodd bynnag, mae'r broses apeliadau ar gael i ganolfannau ac ymgeiswyr preifat **(gweler adran 5).**

†Barn academaidd yw beth sydd ynghlwm wrth asesu. Mae'n rhesymol y gall arholwyr gwahanol ddod i farn wahanol. Mae afresymoldeb mewn barn academaidd yn digwydd pan fo'r marc a roddwyd yn un na fyddai unrhyw arholwr rhesymol wedi gallu ei ddyfarnu'n iawn.

## 4.7 Pryder canolfan am farcio carfan

4.7.1 Os oes gan ganolfan bryderon am un o'i charfanau cydran/pwnc, yna dylid cyflwyno ceisiadau am adolygiadau o'r marcio ar gyfer yr **holl** ymgeiswyr maent yn credu yr effeithir arnynt. Bydd hyn yn galluogi'r corff dyfarnu i ystyried ansawdd y marcio yn gyfannol a rhoi unrhyw gamau ymchwilio ar waith yn amserol.

4.7.2 **Rhaid** i ganolfannau gael cydsyniad ysgrifenedig ymgeisydd am adolygiadau o farcio **ar ôl** cyhoeddi'r canlyniadau, gan y gellir gostwng marciau a graddau pwnc ymgeiswyr gyda'r gwasanaethau hyn.

- **Rhaid** hysbysu ymgeiswyr o'r canlyniad posibl hwn a darparu eu cydsyniad ysgrifenedig **cyn** cyflwyno unrhyw gais. Mae **Atodiad A** yn rhoi awgrym o ffurflen y gall canolfannau ei defnyddio. Mae cydsyniad ysgrifenedig gan yr ymgeisydd dros e-bost yn dderbyniol hefyd.

- **Rhaid** i'r ganolfan gadw ffurflenni neu negeseuon e-bost cydsyniad gan ymgeiswyr am chwe mis o leiaf ar ôl canlyniad adolygiad o'r marcio neu unrhyw apêl ddilynol. Mae'r cyrff dyfarnu'n cadw'r hawl i archwilio unrhyw ddogfennau.

- Mae cais ar-lein yn rhoi cadarnhad i'r corff dyfarnu bod cydsyniad ysgrifenedig yr ymgeisydd wedi'i gael. Mae cyflwyno ffurflen gais wedi'i llofnodi'n gwneud yr un peth.

4.7.3 Mae corff dyfarnu yn gorfod cymryd camau ymchwilio pellach os oes tuedd arwyddocaol mewn tan-farcio neu or-farcio.

4.7.4 Lle mae corff dyfarnu yn dechrau camau ymchwilio, **nid** yw marciau a graddau pwnc ymgeiswyr wedi eu gwarchod yn awtomatig. Felly, gellir gostwng, cadarnhau neu godi marciau a graddau pwnc ymgeiswyr.

## 4.8 Marciau Graddfa Marciau Unffurf (GMU) – manylebau TAG UG, Safon Uwch a TGAU unedol

4.8.1 Gellir cael esboniad o sut y cyfrifir marciau unffurf ar wefannau'r cyrff dyfarnu. Fodd bynnag, gallai'r canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Marciau crai yw'r marciau a gofnodir gan arholwyr – mae'r uchafswm marciau crai yn wahanol yn ôl yr uned/cydran.

- Adroddir canlyniadau ymgeiswyr mewn pynciau unedol fel marciau unffurf – pennir y rhain ar gyfer pob uned/cydran gyda phwysoliad cyfartal.

- Cyfrifir marciau unffurf o farciau crai;

- Ni fydd perthynas uniongyrchol amlwg rhwng marciau crai a marciau unffurf o angenrheidrwydd;

- Dan rai amgylchiadau, gall amrywiadau bach mewn marciau crai arwain at wahaniaethau GMU mwy;

- Bydd cyrff dyfarnu yn monitro canlyniad adolygiadau o'r marcio o ran marciau crai nid marciau unffurf.

## 4.9 Camymddwyn gan ymgeiswyr

4.9.1 Os darganfyddir bod ymgeiswyr wedi bod yn camymddwyn yn ystod adolygiad o'r marcio neu adolygiad o'r cymedroli, bydd y sgript/gwaith cwrs/asesiad di-arholiad yn cael ei brosesu'n unol â dogfen y *CGC Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau* (mae'r ddogfen hon i'w chael yma: https://www.cbac.co.uk/media/gpmljhv3/17-cgc-amau-camymddwyn-polis%C3%AFau-a-gweithdrefnau-jcq-suspected-malpractice-policies-and-procedures.pdf) Efallai y bydd ymgeiswyr yn colli rhai neu'r cyfan o'u marciau, a bydd hyn felly'n effeithio ar y graddau a ddyfarnwyd.

## 5. Apeliadau

5.1 Mae'r broses apeliadau ar gael i ganolfannau ac ymgeiswyr preifat ar ôl derbyn canlyniad adolygiad o'r canlyniadau. Dylid cyfeirio at ddogfen y CGC *Canllaw i brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu*. Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion llawn prosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu a'r amserlenni cysylltiedig. Mae ar gael ar wefan y CGC: http://www.jcq.org.uk/exams-office/appeals

5.2 Dim ond ar ôl i adroddiad am ganlyniad adolygiad o'r canlyniadau gael ei gyflwyno i'r ganolfan y gellir apelio.

5.3 Ni ellir cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad adolygiad o'r cymedroli ar ran ymgeisydd unigol.

5.4 O ran ymgeiswyr mewnol, pennaeth y ganolfan yn unig all gyflwyno apêl i'r corff dyfarnu perthnasol.

5.5 **Rhaid** cyflwyno apeliadau'n ysgrifenedig a dylent nodi sail yr apêl yn glir.

5.6 Gall cyrff dyfarnu godi ffi am apeliadau sy'n cael eu cyhoeddi'n annibynnol gan bob corff. Ad-delir y ffi hwn os yw'r apêl yn llwyddiannus.

**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod gweithdrefn apeliadau ffurfiol ar waith i'w defnyddio mewn achosion lle nad yw canolfannau ac ymgeiswyr, neu eu rhieni/gofalwyr, yn gallu cytuno a ddylid cyflwyno apêl i'r corff dyfarnu perthnasol. **Rhaid** i'r weithdrefn apeliadau ffurfiol gael ei rhannu'n eang. **Rhaid** i ganolfannau dynnu sylw ymgeiswyr a'u rhieni/gofalwyr at y weithdrefn apelio.
Pan fydd canolfannau'n penderfynu a ydynt am gefnogi apêl ai peidio, dylent ystyried yr holl ffactorau perthnasol a chaniatáu cyfle rhesymol i ymgeiswyr neu eu rhieni/gofalwyr fynegi eu barn. O ran ymgeiswyr mewnol, gall cyrff dyfarnu drafod apeliadau gyda chanolfannau yn unig. Bydd cyrff dyfarnu'n derbyn apeliadau'n uniongyrchol gan ymgeiswyr preifat.

# Adran Tri: Mynediad at Sgriptiau

## 6. Dychwelyd Sgriptiau (DS)

Gall canolfannau wneud cais am gopïau o sgriptiau i gefnogi:

- adolygiadau o'r marcio; a/neu
- addysgu a dysgu.

**Rhaid** i ganolfannau gyflwyno ceisiadau ar-lein drwy safleoedd allrwyd y cyrff dyfarnu.

Bydd gwefannau'r cyrff dyfarnu yn cynnwys gwybodaeth ynghylch terfynau amser Mynediad at Sgriptiau.
Dylai canolfannau fod yn ymwybodol na fydd adolygiadau o'r marcio ar gael ar ôl 24 Medi 2026, waeth pa bryd y cyrchwyd y sgript.

**Rhaid** i bob aelod o staff yn y ganolfan fod yn gwbl ymwybodol o'r rheolau ar gyfer y trefniadau hyn.

**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn gwybod y trefniadau ar gyfer mynediad at sgriptiau cyn cyhoeddi'r canlyniadau.

**Rhaid** i ganolfannau gyflwyno cais ar ran ymgeisydd preifat pan ofynnir iddynt wneud hynny.

### 6.1 Trefniadau mynediad at sgriptiau arholiad wedi'u marcio

6.1.1 Bydd y cyrff dyfarnu yn darparu mynediad at sgriptiau wedi'u marcio ar gyfer y cymwysterau canlynol:

- TAG UG a Safon Uwch
- TGAU
- Lefelau T
- Cymwysterau Lefel 1, 2 a 3 Galwedigaethol a Thechnegol. Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael ar gyfer cymwysterau City & Guilds Lefel 2 a Lefel 3 Technegol, na chymwysterau NCFE neu CACHE. Nid yw ar gael ychwaith ar gyfer cymwysterau TQUK Dylunio, Peirianny ac Adeiladu!

6.1.2 Mae 'sgript' yn golygu'r gwaith y mae ymgeisydd yn ei gyflwyno'n rhan o gydran wedi'i hasesu'n allanol, h.y. copi caled neu sgript arholiad electronig.

6.1.3 Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y dehongliad o sgriptiau arholiad wedi'u marcio ar wefannau'r cyrff dyfarnu.

### 6.2 Amodau'r gwasanaeth Mynediad at Sgriptiau

Oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau at 'ymgeiswyr' yn cynnwys ymgeiswyr mewnol ac ymgeiswyr preifat. Dim ond o dan yr amodau canlynol y bydd cyrff dyfarnu'n rhyddhau copïau o sgriptiau i ganolfannau.

6.2.1 **Rhaid** cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan unrhyw ymgeisydd lle mae'r ganolfan yn bwriadu gofyn am ei sgript(iau).

6.2.2 **Dylid ond** gofyn am y caniatâd hwn **ar ôl** i'r ymgeiswyr dderbyn eu canlyniadau am y gyfres arholiadau dan sylw. Mae gan ymgeiswyr sy'n rhoi eu cydsyniad yr hawl i gael gwneud eu sgriptiau'n ddienw cyn iddynt gael eu defnyddio.

6.2.3 Mae **Atodiad B** yn cynnwys awgrym o ffurflen y gall canolfannau ei defnyddio wrth ofyn am ganiatâd ysgrifenedig ymgeisydd i wneud cais am ei sgriptiau a'u defnyddio. Mae cydsyniad ysgrifenedig gan yr ymgeisydd dros e-bost yn dderbyniol hefyd.

6.2.4 **Dim ond** athrawon sy'n aelodau o staff yn y ganolfan honno neu o fewn consortiwm o ganolfannau sy'n cael gweld sgriptiau, neu dylent gael eu dychwelyd yn syth i'r ymgeiswyr.

## 6.3 Copïau o sgriptiau i gefnogi adolygiadau o'r marcio

6.3.1 Bydd canolfannau yn gallu gofyn am gopïau o sgriptiau TAG UG, Safon Uwch, Lefel T, TGAU a Lefel 1, 2 a 3 Galwedigaethol a Thechnegol cyn penderfynu a ddylid gofyn am adolygiad o'r marcio.

| |
|---|
| Os yw ymgeisydd TAG Safon Uwch, Lefel T neu Lefel 3 Galwedigaethol a Thechnegol yn ystyried cael adolygiad o'r marcio gan ddefnyddio Gwasanaeth Blaenoriaethol 2, yna cyfeiriwch at wefan y corff dyfarnu perthnasol i ddeall goblygiadau gofyn am gopi o'r sgript. |

6.3.2 Dylai canolfan sydd am gael copi o'r sgript sydd naill ai wedi bod yn destun ailwiriad clercyddol neu adolygiad o'r marcio gyfeirio at wefan y corff dyfarnu perthnasol am ragor o wybodaeth.

## 6.4 Copïau o sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu

6.4.1 Cyfeirier at wefannau'r cyrff dyfarnu i weld pa bryd y mae copïau o sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu ar gael.

## 6.5 Cynlluniau marcio

6.5.1 Bydd copi o'r cynllun marcio perthnasol ar gael i ganolfannau gan y corff dyfarnu, fel arfer ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau.

## 6.6 Cael gwared ar sgriptiau

6.6.1 Os yw athrawon wedi defnyddio copïau o sgriptiau ymgeiswyr i bwrpasau addysgu a dysgu ond nad ydynt am eu cadw mwyach, **rhaid** iddynt wneud yn siŵr eu bod yn cael gwared arnynt mewn ffordd gyfrinachol.

6.6.2 Ac eithrio deunydd archif, **nid yw** cyrff dyfarnu yn cadw atebion ymgeiswyr am gyfnod amhenodol. Mae hyn yn cynnwys sgriptiau arholiad a delweddau sgriptiau electronig.

## 6.7 Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

6.7.1 Mae'r wybodaeth a gofnodir gan ymgeiswyr mewn sgriptiau arholiadau wedi'i heithrio rhag yr hawl i fynediad dan Ceisiadau am Fynediad at Ddata yn rhan o ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU.

# Atodiad A

| AQA | Cambridge OCR | City & Guilds | CCEA | NCFE | Pearson | CBAC |
|---|---|---|---|---|---|---|

## Ailwiriadau clercyddol, adolygiadau o'r marcio ac apeliadau

## Ffurflen cydsyniad yr ymgeisydd

### Gwybodaeth i ymgeiswyr

Mae'r wybodaeth ganlynol yn esbonio beth all ddigwydd yn dilyn ailwiriad clercyddol, adolygiad o'r marcio ac unrhyw apêl ar ôl hynny.

Os bydd eich ysgol neu goleg yn gwneud cais am ailwiriad clercyddol neu adolygiad o'r marcio gwreiddiol, ac yna apêl ddilynol, ar gyfer un o'ch arholiadau ar ôl i'ch gradd yn y pwnc gael ei chyhoeddi, gall tri pheth ddigwydd:

- Bydd eich marc gwreiddiol yn cael ei ostwng, felly gallai eich gradd derfynol fod yn is na'r radd wreiddiol a gawsoch.
- Bydd eich marc gwreiddiol yn cael ei gadarnhau, felly nid oes unrhyw newid i'ch gradd.
- Bydd eich marc gwreiddiol yn cael ei godi, felly gallai eich gradd derfynol fod yn uwch na'r radd wreiddiol a gawsoch.

Er mwyn mynd ymlaen â'r ailwiriad clercyddol neu'r adolygiad o'r marcio, **rhaid** i chi lofnodi'r ffurflen isod. Mae hyn yn dweud wrth bennaeth eich canolfan eich bod wedi deall beth allai ddigwydd, a'ch bod yn cydsynio i gyflwyno'r ail-wiriad clerigol a'r adolygiad o farcio.

**Ffurflen cydsyniad yr ymgeisydd**

| Rhif y ganolfan | Enw'r ganolfan |
|---|---|
| Rhif yr ymgeisydd | Enw'r ymgeisydd |

Manylion yr adolygiad (corff dyfarnu, lefel y cymhwyster, teitl y pwnc, cydran/uned)

…………………………………………………………………………………………………………………………….…

……………………………………………………………………………………………………………………………

Rwyf yn cydsynio i bennaeth fy ysgol neu goleg gyflwyno ailwiriad clercyddol neu adolygiad o'r marcio ar gyfer yr arholiad(au) a restrir uchod. Wrth gydsynio yr wyf yn deall y gallai'r radd derfynol yn y pwnc a/neu farc sy'n cael eu dyfarnu i mi ar ôl ailwiriad clercyddol neu adolygiad o'r marcio ac unrhyw apêl ddilynol fod yn is, yn uwch neu'r un peth â'r radd a ddyfarnwyd yn wreiddiol am y pwnc hwn.

Llofnod: ……………………………………………………………………………………….. Dyddiad: ………………………….

**Dylid cadw'r ffurflen hon yn ffeiliau'r ganolfan am o leiaf chwe mis yn dilyn canlyniad ailwiriad clercyddol, adolygiad o'r marcio neu unrhyw apêl sy'n cael ei wneud ar ôl hynny.**

**Atodiad B**

AQA Cambridge OCR City & Guilds CCEA NCFE Pearson CBAC

# Mynediad at Sgriptiau

## Ffurflen gydsynio ymgeisydd i gael mynediad at sgriptiau arholiad a'u defnyddio

| Rhif y ganolfan | Enw'r ganolfan |
|---|---|
| Rhif yr ymgeisydd | Enw'r ymgeisydd |
| Lefel y cymhwyster/pwnc | Cod y gydran/uned |

☐ Rwy'n cydsynio i fy sgriptiau gael eu defnyddio gan fy nghanolfan.

Ticiwch UN o'r blychau isod:-

☐ Os bydd unrhyw un o fy sgriptiau yn cael eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, nid wyf yn dymuno i unrhyw un wybod mai fy sgriptiau i ydynt. Rhaid dileu fy enw a'm rhif ymgeisydd.

☐ Os bydd unrhyw un o fy sgriptiau yn cael eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth nid wyf yn gwrthwynebu os yw pobl eraill yn gwybod mai fi ysgrifennodd y sgriptiau.

Llofnod: ..................................................... Dyddiad: ........................................

**Dylid cadw'r ffurflen hon ar ffeiliau'r ganolfan am o leiaf chwe mis.**